

CYNGOR CYMUNED BETHESDA BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo
A'n braint yw gwarchod ein bro"*

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer

Donna Watts

Rhif Ffôn: 01248 602131

Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd dros Zoom
Nos Iau 25 Tachwedd 2021

PRESENNOL:

Ward Ogwen

Y Cynghorydd Neville Hughes
Y Cynghorydd Griff Morris
Y Cynghorydd Walter Williams
Y Cynghorydd Mary Jones
Y Cynghorydd Einir Williams
Y Cynghorydd Gwilym Owen

Cyngor Sir

Y Cynghorydd Paul Rowlinson

Ward Gerlan

Y Cynghorydd Ann Williams
Y Cynghorydd Dyfrig Jones
Y Cynghorydd Linda Brown

Ward Rachub

Y Cynghorydd Godfrey Northam
Y Cynghorydd Michael Williams
Y Cynghorydd Pearl Evans

- 1. Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan y Is-gadeirydd y Cyng. Dyfrig Jones
Ymddiheuriadau – gan y Cyng. Bleddyn Williams

2. Datgan Diddordeb

Dim i'w ddatgan.

3. Materion Brys

3.1 Parcio wrth Londis – i'w drafod mis nesaf

3.2 Ceblau uwchben yr A5 – angen eu clymu yn ôl yn iawn

3.3 Llochesi bws – wedi cyrraedd ac byddant yn cael eu gosod cyn gynted a bo modd. Cofid 19 wedi achosi oedi hefo'r contractwr.

3.4 Cyfarfod mis Rhagfyr – penderfynwyd bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal wyneb yn wyneb, yn Canolfan Cefnfaes.

4. Cofnodion

Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Hydref 2021, yn ddarostynedig i Eitem 8.6 – i ychwanegu enwau'r Cynrychiolydd y Cyngor. Einir Williams a Walter Williams (fel dirprwy)

5. Materion yn codi o'r Cofnodion

5.1 Rhos y Nant – problem gyda dŵr yn sefyll. Cyngor Gwynedd am edrych ar wyneb y ffordd pan yn gwneud gwaith ail-wynebu ar y palmentydd.

5.2 CCTV Stryd Fawr – y Clerc i holi Cyngor Gwynedd am ddiweddariad.

5.3 Arwyddion stryd – Angen caniatad perchnogion yr adeiladau a prynu arwyddion.

5.4 Llinellau melyn ym Mhant Dreiniog – llinellau wedi eu gosod oherwydd y loriau oedd yn arfer ymweld a C L Jones. Y Cyng. Rheinallt Puw wedi holi CL Jones ac am ddisgwyl i weld pwy fydd perchennog newydd y safle a'i drafod gyda nhw.

5.5 Cae chwarae Rachub – Y Clerc wedi holi Cyngor Gwynedd unwaith eto am yr arian Adran 106: Rhwymedigaethau Cynllunio ar gyfer caniatad cynllunio Llwyn Bedw. Yn ôl Cyngor Gwynedd nid oes unrhyw daliad yn y cytundeb.

5.6 Llwybr o Gwernydd i Abercaseg – yn dilyn cyfarfod ar y safle, Cyngor Gwynedd am osod mwy o rwystrau. Ar y gweill.

5.7 Arriva - wedi gwneud newidiadau i'w holl wasanaethau, ac wedi ail-dechrau'r gwasanaeth 67S ar gyfer plant ysgol a mynychwyr Coleg Menai. Mae hyn wedi gwella'r sefyllfa oedd gyda'r bws 67 ben bore ac amser gadael yr ysgol/coleg.

6. Côt Ymddygiad a Protocol Datrysiadau Lleol

Y Clerc i brintio copiau ar gyfer yr aelodau, ac i'w roi fel eitem ar yr agenda ym mis Ionawr.

7. Stryd y Ffynnon, Gerlan – llain o dir

Y Clerc wedi cyfarfod ar y safle yn ddiweddar gyda swyddog o Adra i drafod ein cais i osod fainc ar y safle. Adra wedi cynnig trosglwyddo'r safle i berchnogaeth y Cyngor Cymuned. Penderfynwyd bod gan y Cyngor ddiddordeb yn hyn. Y Clerc i drafod ymhellach gyda swyddogion Adra.

8. Adroddiadau gan gynrychiolwyr

Grŵp llywio Cefnfaes – adroddwyd bod grant wedi ei dderbyn gan Llywodraeth Cymru i ddatblygu rhan gymunedol o'r adeilad. Nid oedd y cais am arian gan y Loteri yn llwyddiannus, ond mae ceisiadau eraill ar y gweill er mwyn cwblhau'r cynlluniau gwreiddiol.

9. Maes parcio Gerlan

Dim diweddariad ers y cyfarfod diwethaf. Y Clerc i edrych ar sut i symud ymlaen.

10. Cae chwarae Pantdreiniog

Dim copi drafft o'r brydles wedi ei dderbyn hyd yn hyn, ond wedi cael amlinelliad bras o beth fyddai'r prif delerau. Penderfynwyd derbyn y telerau.

11. Gohebiaeth

Roedd pawb wedi cael copi o'r rhestr 'crynoded o ohebiaeth Tachwedd 2021'

11.1 Ebst gan Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn - Adroddiad Adolygu Drafft-Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn. Roedd y Cyngor o'r farn bod angen adolygiad llawn o'r cynllun. Mae llawer o newidiadau ers i'r cynllun gael ei fabwysiadu yn 2017 - y cynlluniau ar gyfer Wylfa, y pandemic Cofid 19 a Brexit. Mae hyn wedi arwain at newidiadau mawr yn natur y farchnad dai, nifer o ail-gartrefi ac prisiau tai.

11.2 Ebst gan Chris Roberts – GwyrddNi - eisiau dod i sgwrsio gyda ni am ei waith. Penderfynwyd ei wahodd i gyfarfod mis Ionawr.

11.3 E-bost gan Cyngor Tref Criccieth – ar y rhestr fer ar gyfer Gwobrau Clodwiw Bywydau Creadigol 2021. Yr aelodau i bleidleisio fel unigolion os yn dymuno.

11.4 E-bost gan Cylch yr Iaith ynglŷn a Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a gor-dwristiaeth. Penderfynwyd derbyn yr ohebiaeth.

11.5 E-bost gan Pennaeth Addysg Cyngor Gwynedd. Ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) 2022-32. Penderfynwyd bod y Cyngor yn gefnogol a'r aelodau i ymateb fel unigolion.

11.6 E-bost gan Comisiwn Ffiniau i Gymru – gwrandawriad cyhoeddus yn ystod y Cyfnod Ymgynghori Eilaidd. Y Cyng. Godfrey Northam a Einir Williams am gofrestru.

11.7 E-bost gan Cyngor Gwynedd a Parc Cenedlaethol Eryri. Cynhadledd Twristiaeth-Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035:er budd pawb. Y Cyng. Godfrey Northam a Paul Rowlinson am fynychu'r digwyddiad.

11.8 E-bost gan Cyngor ar Bopeth – Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i'w gynnal 15fed o Ragfyr dros Zoom. Y Cyng. Mary Jones am fynychu.

12. Penderfyniadau a Ceisiadau Cynllunio

Penderfyniadau

C20/0716/13/LL

1 Lon Sarnau, Bethesda

Cais ar gyfer trosi modurdy i anecs is-raddol i'r eiddo adnabyddir fel '1 Lon Sarnau, Ffordd y Stesion, Bethesda'

Penderfyniad: Ar y gweill.

C20/0152/13/LL

4 Rhes Ogwen

Cais ar gyfer trosi is-lawr eiddo i uned breswyl hunan gynhaliol ynghyd a rhannu modurdy cefn i fodurdy a phorth car

Penderfyniad: Ar y gweill.

C21/0855/13/RC

Maes Yr Onnen Stryd Britannia, Rachub

Diddymu cytundeb o dan Adran 106 ar ganiatâd rhif C08A/0444/13/AM sy'n datgan mai'r tŷ oedd yn destun y caniatâd cynllunio yw'r unig adeilad sydd i'w godi ar y safle gyda gweddill y safle yn aros fel man agored.

Penderfyniad: Ar y gweill

Ceisiadau

C21/1031/13/LL

Siloam, Allt Pen y Bryn, Bethesda

Estyniad a newidiadau i'r modurdy presennol er mwyn creu tŷ newydd.

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.

C21/1055/13/DT

7 Maes Coetmor, Bethesda

Cais ar gyfer codi estyniad deulawr i gefn yr eiddo

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad

C21/0971/13/LL

Kings Head, 51 Stryd Fawr, Bethesda

Newid defnydd uned byw yn 5
ystafell wely i westeion yn
gysylltiedig ar tŷ tafarn**Penderfyniad:** Dim
gwrthwynebiad**C21/1007/13/CR**

Kings Head, 51 Stryd Fawr, Bethesda

Addasiadau mewnol ac allanol i dŷ
tafarn**Penderfyniad:** Dim
gwrthwynebiad**13. Taliadau**Awdurdodwyd y canlynol

Cyflogau (Tachwedd)	£309.10
CThEM (Tachwedd)	£77.00
C L Jones-Llys Dafydd	£46.41
D Watts-ad-daliad Torch Sul y Cofio	£20.00
Macemain & Amstad-llochesi bws	£7735.20
Blachere Illuminations-golau Nadolig	£2901.00